No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S.D. Perkes, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd N.C. Thomas.

### C145 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bob plaid i gyfarfod y Cabinet gan atgoffa pawb oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd a chaiff y recordiad hwn ei archifo ar gyfer gwylio yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr 'dawelu' eu hunain pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a dywedodd, pe bai cyfranogwyr yn dymuno siarad, y dylent godi eu llaw (i gael eu gweld ar y sgrîn) neu ddefnyddio'r swyddogaeth 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod pob trafodaeth ar lafar ac nid trwy'r swyddogaeth 'sgwrsio' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrsio' i dynnu sylw at unrhyw faterion technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn Wythnos Ymwybyddiaeth Trawsryweddol ac anfonodd y Cabinet ei gefnogaeth a'i ddymuniadau gorau i'r gymuned Draws a'r rhai a oedd yn ymwneud â Diwrnod Cofio Trawsryweddol ar 20 Tachwedd.

### C146 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

### C147 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C148 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD –**

Roedd y Cynghorydd Perkes wedi mynd i'r cyfarfod a chyfeiriodd at y trafodaethau diddorol a oedd wedi digwydd yn cynnwys yr ochrau rheoli ac undeb llafur a oedd yn bresennol, gan gynnwys y Strategaeth Ddigidol Ddrafft, Strategaeth y Bobl, Strategaeth Ddenu Cyngor Bro Morgannwg, Hunanasesiad Blynyddol Drafft Bro Morgannwg, a manylion y Fframwaith Athrawon Cyflenwi Newydd. Cafwyd trafodaeth hefyd ar bwynt yn mynd i'r Cyngor Llawn ynghylch yr adolygiad o Gyfansoddiad y Fforwm Ymgynghori ar y Cyd.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 25 Medi 2023 yn cael eu nodi.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wrth nodi'r cofnodion.

**C149 GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR –**

Roedd y Cynghorydd Sivagnanam wedi mynd i'r cyfarfod a chyfeiriodd at y trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch Cynlluniau Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023 Archwilio Cymru. Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch materion cyllidebol ac adnoddau o ganlyniad i ddeddfwriaeth newydd a fyddai'n heriol i'r tri Awdurdod Lleol a oedd yn ymwneud â'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR).

Roedd adroddiad ar yr Adolygiad o Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi GRhR nad oedd wedi'i adolygu ers hynny. Roedd y Swyddogion bellach wedi adolygu'r Polisi hwnnw a oedd yn ymwneud â materion diffyg cydymffurfio â chyfraith diogelu'r cyhoedd. Argymhellodd penderfyniad (2) y mater y dylai'r Polisi diwygiedig gael ei fabwysiadu gan y Cynghorau priodol ar gyfer y swyddogaethau hynny a oedd yn cael eu cyflawni gan y Gwasanaeth a Rennir ar eu rhan. Gofynnodd y Cynghorydd Sivagnanam i'r penderfyniad arfaethedig gael ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cofnodion cyfarfod y GRhR a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 yn cael eu nodi.

(2) BOD y Polisi diwygiedig yn cael ei fabwysiadu gan y Cynghorau priodol ar gyfer y swyddogaethau hynny a oedd yn cael eu cyflawni gan y Gwasanaeth a Rennir ar eu rhan.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Wrth nodi'r cofnodion.

(2) Mae'r penderfyniad i erlyn achosion o dorri deddfwriaeth a orfodir gan y GRhR yn nwylo pob Cyngor ac, o'r herwydd, byddai angen i’r tri awdurdod partner fabwysiadu'r Polisi diwygiedig.

**C150 MONITRO REFENIW CHWARTER 2 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i’r Cabinet am sefyllfa Monitro Refeniw Chwarter 2 ar gyfer 2023/24.

Bu pwysau parhaus ar gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarter 2 gyda swm aruthrol o bwysau ar heriau penodol o ran y Gwasanaethau Plant a'r rheiny a oedd angen asesiad a lleoliadau a chost a chymhlethdod lleoliadau o'r fath. Yn y Gwasanaethau Oedolion roedd cynnydd yn nifer yr oriau gofal a oedd eu hangen ar gyfer trigolion agored i niwed yn ogystal â chynnydd mewn cost a chymhlethdod trefniadau gofal. Roedd llawer o bwysau wedi cael eu lliniaru drwy gronfa wrth gefn y Gwasanaethau Cymdeithasol a defnyddio rhywfaint o arian wedi’i danwario fel yr adroddwyd yn y gyllideb adnoddau corfforaethol a pholisi.

Roedd ysgolion yn parhau i brofi pwysau ac roeddent yn adrodd diffyg net o £171k, gyda 19 ysgol ar hyn o bryd yn nodi diffyg na ellir ei adennill. Byddai'r Tîm Addysg, gyda chymorth gan Swyddogion Cyllid yn parhau i weithio gydag ysgolion i helpu i'w cefnogi gyda materion cyllidebol drwy gydol y flwyddyn.

Drwy ganiatáu’r defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a’r defnydd arall o gronfeydd wrth gefn, gan gynnwys y defnydd wedi’i gynllunio o’r Cyfrif Refeniw Tai, rhagwelwyd y byddai cronfeydd wrth gefn yn gostwng i £56.7 miliwn. Roedd cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn arbedion, gyda disgwyl i 79% o'r arbedion y cytunwyd arnynt gael eu cyflawni a disgwyl i 6% arall gael ei liniaru gan ffynonellau incwm eraill.

Nid oedd toriadau cyllid penodol yr oedd y Cyngor yn ymwybodol ohonynt ar y pryd, a byddai gan Graffu gyfle i fynd i'r afael â rhannau perthnasol o’r adroddiad a gwneud sylwadau yn unol â hynny.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD sefyllfa Cyllideb Refeniw 2023/24 yr Awdurdod yn cael ei nodi.

(2) BOD Cyllideb Ddiwygiedig 2023/24 a gyflwynwyd yn yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2023/24.

(2) Diweddaru'r gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023/24 i ddileu ailgodiadau corfforaethol mewnol ac addasiadau cyllideb gyfrifyddu eraill.

**C151 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI, 2023 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2023/24 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 a gofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet, pe bai pob cais o fewn yr adroddiad i ddiwygio'r rhaglen gyfalaf yn cael ei gymeradwyo, y rhagwelir mai £107,653 miliwn fyddai'r alldro diwygiedig a bod llai na £26 miliwn wedi'i wario hyd yma hyd at ddiwedd mis Medi.

Roedd llawer o feysydd yn parhau i brofi cynnydd yn y costau'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau ac roedd tendrau'n cael eu derbyn a oedd dros y cyllidebau a ddyrannwyd ar hyn o bryd, ac o'r herwydd roedd y Swyddogion yn adrodd y gofyniad i aildrafod ac ailgyflwyno tendrau. Roedd y Swyddogion yn parhau i weithio gyda noddwyr a rheolwyr prosiect i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni a bod cynlluniau'n cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn i nodi unrhyw orwariant.

Roedd paragraffau pellach wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a amlygodd ddau gynllun a oedd yn cael eu cyflawni yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24; y prosiect Tirwedd Adfer y Ddawan wedi'i ariannu'n bennaf gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Pharc Sglefrio y Cnap, a agorodd ar 7 Hydref 2023. Roedd y cynlluniau'n dangos y ffordd yr oedd y Cyngor yn gweithio'n gynyddol gyda phartneriaid i gyflawni prosiectau ym Mro Morgannwg, fel y Loteri Genedlaethol a Chwaraeon Cymru yn ogystal â'r cymunedau lleol eu hunain fel Cronfa Goffa Richard Taylor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John hefyd at y gefnogaeth a gafwyd gan Chwaraeon Cymru a oedd yn gysylltiedig â thri o'r prosiectau ar y cynllun Cyfalaf, na fyddent wedi bod yn bosibl hebddynt a diolchodd iddynt am eu cefnogaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson hefyd at y Gymdeithas Tennis a fu'n ymwneud yn weithredol â chynlluniau cyfalaf yng Ngwenfô a Phenarth, a dywedodd fod yn rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddod o hyd i fwy o enghreifftiau o ffyrdd arloesol o weithio gyda phartneriaid i gyflawni prosiectau eraill o'r fath ar gyfer trigolion Bro Morgannwg.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2023/24 yn cael ei nodi.

(2) BOD y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei nodi.

(3) BOD y defnydd o Bwerau Brys fel y nodwyd yn Atodiad 1 yn cael ei nodi.

(4) BOD y newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2023/24 a rhai’r blynyddoedd i ddod yn cael eu cymeradwyo:

- Adolygiad Cyfalaf – Diwygio Rhaglen Gyfalaf 2023/24 a rhai’r blynyddoedd i ddod fel y nodwyd ym mharagraff 2.10 i 2.14.
- Canolfan Dysgu a Lles – Dod â £223k ymlaen o gyllideb Rhaglen Gyfalaf 24/25.
- Gwaith Cynnal a Chadw Cyffredinol mewn Ysgolion Fictoraidd – Trosglwyddo £4k i'r cynllun Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24
- Band B Ysgol Y Deri – Ailbroffilio cyllideb y cynllun hwn fel y nodwyd ym mharagraff 2.23.
- Adnewyddu To Gwenfo – Trosglwyddo £16k o Gyllideb Wrth Gefn Asedau Addysg i gyllideb Adnewyddu To Gwenfo
- Cynllun Peilot Trwyddedau a Cherbydau Trydan y Gwasanaethau Cymdeithasol – Cynnwys cynllun newydd yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24 am £60k, i'w ariannu trwy gronfeydd wrth gefn.
- Rhaglen Gwella Tai – Cario ymlaen £3.8m o'r cynllun adeiladau newydd i Raglen Gyfalaf 2024/25.
- Canolfan Hamdden a Chymunedol – Cynyddu cyllideb y cynllun hwn gan £4k, i'w ariannu trwy gyfraniad refeniw.
- Rhaglen Amnewid Cerbydau – Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2023/24 gan £98k, i'w ariannu trwy gronfa’r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Mur cynnal yn Windsor Road – Cario ymlaen £200k i Raglen Gyfalaf 2024/25.
- Adeileddau Pont – Cais i drosglwyddo £6k i Waith Sefydlogi Llethr Marina Penarth.
- Parcio Fflyd Gweithrediadau Ystâd Fasnachu'r Iwerydd – Cario ymlaen £2.569M i Raglen Gyfalaf 2024/25.
- Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) Newydd - Cario ymlaen £1.205M i Raglen Gyfalaf 2024/25.
- Gwelliannau Safleoedd Bysus y Gronfa Trafnidiaeth Leol – Cynyddu cyllideb y cynllun hwn gan £5k i'w hariannu trwy gyfraniad refeniw.
- Cronfa Seilwaith Bysus. - Cyfuno cyllideb y cynllun hwn gyda chynllun Gwelliannau Safleoedd Bysus y Gronfa Trafnidiaeth Leol yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24.
- Uned Trin Aer, Canolfan Hamdden Llanilltud Fawr – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24 fel y nodwyd ym mharagraff 2.24.
- Neuadd Chwaraeon Colcot, Lloriau a Physt Rhwyd – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24 fel y nodwyd ym mharagraff 2.25.
- Canolfan Hamdden a Chymunedol – Trosglwyddo £50k i gynllun Belle Vue yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24.
- Celtic Way - Cario ymlaen £146k i Raglen Gyfalaf 2024/25.

- Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield - Cario ymlaen £92k i Raglen Gyfalaf 2024/25.
- Canolfan Gwasanaethau Busnes 2 – Cario ymlaen £646k i Raglen Gyfalaf 2024/25.
- Ad-daliad i Lywodraeth Cymru (Goodshed) - Cynnwys y cynllun yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24 gyda chyllideb o £57k i'w hariannu trwy dderbyniadau cyfalaf.
- Adnewyddu seilwaith y rhwydwaith yn Cyswllt Un Fro – Cynnwys y cynllun yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24 gyda chyllideb o £13k i'w hariannu trwy gyfraniad refeniw.
- Bargen Ddinesig – Ailbroffilio'r cynllun yn Rhaglen Gyfalaf 2023/24 a Rhaglen Gyfalaf y flwyddyn i ddod fel y nodwyd ym mharagraff 2.31.

(5) BOD yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol i'w hystyried.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd o ran y Rhaglen Gyfalaf.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.

(3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Bwerau Brys.

(4) Galluogi cynlluniau i fynd rhagddynt yn y blynyddoedd ariannol presennol a rhai'r dyfodol.

(5) Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynnydd o ran y Rhaglen Gyfalaf a rhoi cyfle i'r Pwyllgor gyfeirio unrhyw sylwadau i'r Cabinet.

**C152 ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2023/24 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi adroddiad canol blwyddyn ar weithrediadau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y ffactorau a oedd yn gyrru economi'r DU yn ystod y cyfnod dan sylw hyd at 30 Medi 2023 a dadansoddiad o ragolygon cyfradd log ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Medi 2026.

Roedd yn adroddiad manwl i sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni ei ofyniad statudol i gyflawni cyllideb gytbwys a rhoi manylion i reoleiddwyr i ddangos bod Cyngor Bro Morgannwg yn gynaliadwy ac yn edrych i'r dyfodol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad Rheoli Trysorlys canol blwyddyn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023 yn cael ei gymeradwyo a'i gyfeirio i'r Cyngor ar 4 Rhagfyr 2023 i'w ystyried.

(2) BOD y dangosyddion Rheoli Trysorlys diweddaraf fel y'u nodwyd yn Atodiad 1 yn cael eu cymeradwyo a'u cyfeirio i'r Cyngor ar 4 Rhagfyr 2023 i'w hystyried.

(3) BOD, er gwaethaf argymhellion 1 a 2, yr adroddiad yn cael ei anfon hefyd at gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Llywodraethu ac Archwilio i'w ystyried a'i drafod.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Cyflwyno'r adroddiad Rheoli Trysorlys canol blwyddyn fel sy'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA).

(2) Cyflwyno diweddariad ar y dangosyddion Rheoli Trysorlys sydd i'w cynnwys yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.

(3) Cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor.

**C153 CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI CYCHWYNNOL (CRT) CYLLIDEB DDIWYGIEDIG 2023/24 A CHYNIGION 2024/25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyllideb ddiwygiedig y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24 a'r cynigion cyllidebol cychwynnol ar gyfer 2024/25 ac i fwrw ymlaen â'r cynigion ar gyfer ymgynghori â Phwyllgorau Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ac Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cyllideb ddiwygiedig y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2023/24 fel y nodwyd ym mharagraff 2.2 yn cael ei chymeradwyo.

(2) BOD cynigion cyllidebol cychwynnol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2024/25 fel y nodwyd ym mharagraff 2.11 yn cael eu cymeradwyo.

(3) BOD cyllideb ddiwygiedig 2023/24 a’r cynigion cychwynnol ar gyfer 2024/25 yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i'w hystyried.

(4) BOD cais yn cael ei wneud i’r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel gyfeirio ei sylwadau at y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol fel y Pwyllgor Craffu arweiniol er mwyn i'w sylwadau gael eu hanfon ymlaen i’r Cabinet.

(5) BOD y cynnydd ar gyfer rhent a gwasanaethau eraill yn destun adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol cyn gynted ag y bydd yr arweiniad ar gael gan Lywodraeth Cymru yn cael ei nodi.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Hwyluso'r gwaith o fonitro Cyllideb ddiwygiedig y Cyfrif Refeniw Tai.

(2) Cael cymeradwyaeth ar gyfer y cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2024/25.

(3) Cael barn y Pwyllgor Craffu ynghylch y cynigion diwygiedig ar gyfer Cyllideb 2023/24 y Cyfrif Refeniw Tai a’r cynigion cychwynnol ar gyfer Cyllideb 2024/25 y Cyfrif Refeniw Tai.

(4) Rhoi gwybod i'r Cabinet am sylwadau’r Pwyllgor Craffu cyn gwneud cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb.

(5) Bodloni'r dyddiad cau i hysbysu tenantiaid am y taliadau newydd fel sy'n ofynnol gan Statud.

**C154 ADNEWYDDU CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/24 I 2028/29 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd adnewyddu rhagdybiaethau cyllido a gwariant a rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cabinet am y camau nesaf ar gyfer cymeradwyo'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gosod Cyllideb 2024/25 ym mis Mawrth 2024.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith bod y Cyngor yn gorfod bodloni ei ofyniad statudol i gyflawni cyllideb gytbwys ond i wneud penderfyniadau i ddiogelu gwasanaethau ar gyfer y trigolion mwyaf agored i niwed ym Mro Morgannwg. Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar y rhagolwg ariannol a nodwyd yn y strategaeth ariannol a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf a diweddariad ar osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

Roedd yr Aelodau wedi gwneud sylw o'r blaen bod ffigyrau wedi newid yn sylweddol dros gyfnod o chwe mis y llynedd, ac roedd yr un peth yn wir eleni. O'r herwydd, roedd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n gyson, gydag adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a Chraffu i sicrhau tryloywder a sicrhau bod yr holl Aelodau'n deall sefyllfa ariannol a strategaeth i’r dyfodol y Cyngor.

Roedd chwyddiant wedi gostwng, fodd bynnag, nid oedd hynny'n golygu bod prisiau wedi gostwng, dim ond eu bod wedi cynyddu ar gyfradd arafach, a oedd yn parhau i effeithio ar y Cyngor ar adeg o dwf isel.

Roedd gwaith yn parhau a byddai'r Cyngor yn cael gwybod sut roedd y pwysau cost yn cael eu hadolygu a'u rheoli i nodi arbedion ac arbedion effeithlonrwydd ac i sicrhau bod y gyllideb gyffredinol yn gytbwys. Drwy'r holl heriau, roedd y Cyngor yn parhau i ymrwymo i gyflawni'r amcanion yn y cynllun corfforaethol yn ogystal â diogelu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n fwy agored i niwed yn y gymuned.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at y graffiau ar Dudalennau 6 i 8 yr adroddiad a oedd yn dangos bod chwyddiant wedi effeithio'n ddifrifol ar y Cyngor a thrigolion Bro Morgannwg, ond bod yn rhaid i'r Cyngor amsugno i ddiogelu ei gymunedau a'i wasanaethau ar yr un pryd â cheisio cyflawni ei brosiectau cyfalaf.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu ei wasanaethau, fel Big Fresh, i gefnogi trigolion Bro Morgannwg yn effeithiol ar gyfer gwasanaethau y byddai darparwyr eraill yn annhebygol o'u cynnal ond bod gan y Cyngor gyfrifoldeb i barhau i'w darparu.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Williams bwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid, Awdurdodau Lleol eraill a Byrddau Iechyd i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu gan fod pob newid posibl o fewn un yn cael effaith ar y lleill.

Pwysleisiodd yr Arweinydd hefyd bwysigrwydd cael lleisiau pob un o'r 54 Aelod etholedig fel rhan o'r trafodaethau cyllidebol parhaus yng Nghraffu ymhell cyn y drafodaeth derfynol yn y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2024.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y bwlch cyllidebol diwygiedig o £10.573M yn 2024/25 a £37.667M ar draws y tymor canolig yn cael ei nodi.

(2) BOD y pwysau sylfaenol yn 2024/25 o £38.525M a'r Bwlch Cyllidebol o £30.248M cyn camau rheoli’n cael eu nodi.

(3) BOD y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i reoli a lliniaru'r pwysau chwyddiant a galw digynsail sy'n cael eu profi yn cael ei nodi.

(4) BOD y gwaith parhaus i nodi arbedion a chyfleoedd trawsnewidiol i'w cyflwyno yn adroddiad y Gyllideb neu'r adroddiad Ymgynghori ym mis Ionawr yn cael ei nodi.

(5) BOD y gwaith parhaus i lobïo Llywodraeth Cymru yn cael ei nodi.

(6) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgorau Craffu'r Cyngor i adolygu'r gwaith sy’n lliniaru'r pwysau cost ac i sylwadau gael eu cyfeirio at y Cabinet.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Gwneud y Cabinet yn ymwybodol o'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn 2024/25.

(2) Gwneud y Cabinet yn ymwybodol o'r risg a fydd yn gynhenid wrth osod cyllideb ar gyfer 2024/25.

(3) Sicrhau tryloywder ar y pwysau cost hynny na fydd y Cyngor yn gallu darparu ar eu cyfer yng Nghyllideb 2024/25.

(4) Cadarnhau'r dull o gydbwyso'r gyllideb a rhoi sicrwydd bod y gwaith ar y gweill.

(5) Parhau i gyflwyno'r achos dros setliad teg.

(6) Sicrhau dull agored a thryloyw o ran gwaith rheoli ariannol yn unol â'r Strategaeth Ariannol a gymeradwywyd.

**C155 DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH DDIGIDOL (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am ddatblygu Strategaeth Ddigidol y Cyngor a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer yr un peth.

Dywedodd yr Arweinydd nad oedd y Strategaeth yn ymwneud â rhoi pobl o flaen cyfrifiaduron yn unig, ond yn fwy am y ffordd y byddai gwasanaethau'n cael eu darparu. Roedd yn ymwneud â gwrando ar y gymuned a deall ei hanghenion fel bod unrhyw drawsnewid gwasanaethau digidol yn briodol ac yn angenrheidiol.

Ychwanegodd y Cynghorydd Sivagnanam fod cyfranogiad y cyhoedd yn bwysig iawn i'r Cyngor ac un o'r ffyrdd o gyrraedd mwy o bobl oedd drwy Strategaeth Ddigidol dda a fyddai'n darparu dull i'r Cyngor nid yn unig gyfathrebu â thrigolion ond hefyd i wrando ar adborth.

Roedd hwn yn fater i’r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD cynnwys diwygiedig yr adroddiad, y Strategaeth Ddigidol (Atodiad A) a'r adborth i'r ymgynghoriad (Atodiad B) yn cael eu nodi.

(2) BOD y Cabinet, yn amodol ar Benderfyniad (1), yn cymeradwyo'r Strategaeth Ddigidol ddiwygiedig (Atodiad A) yn dilyn ymgynghoriad fel y disgrifiwyd yn yr adroddiad ac yn Atodiadau B ac C.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Galluogi'r Cabinet i ystyried y Strategaeth Ddigidol ddiwygiedig, yr adborth i'r ymgynghoriad a'r newidiadau dilynol.

(2) Galluogi'r Cabinet i ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori a'r newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth Ddigidol ddrafft a sicrhau bod y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Ddigidol i ddarparu'r fframwaith ar gyfer datblygu digidol yn y dyfodol.

**C156 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH CH2 2023/2024 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cabinet ar ystadegau absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023, lle cydnabuwyd bod y ffigurau absenoldeb wedi gwella ar yr un cyfnod y llynedd.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD yr adroddiad a'r ffigurau absenoldeb salwch ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Medi 2023 yn Atodiad A yn cael eu nodi.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol i'w ystyried, gydag unrhyw sylwadau'n cael eu cyfeirio'n ôl at y Cabinet i'w hystyried ymhellach.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Dwyn materion i sylw Aelodau'r Cabinet yn unol ag amcanion corfforaethol.

(2) Galluogi'r Pwyllgor Craffu i barhau i ganolbwyntio ar reoli absenoldeb salwch ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor ac i wneud argymhellion i'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

**C157 ADRODDIAD AR GYFER CYLCH GORCHWYL DIWYGIEDIG AR GYFER CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) / CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS) 2023 (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd cadarnhau'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol)/CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog).

Rhoddodd y Cynghorydd Williams glod i bawb a oedd wedi cyfrannu'n fawr at faes y dyniaethau o fewn y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys gwaith gan y ddau Bwyllgor i ddatrys rhai materion cymwysterau.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD – BOD y Cylch Gorchwyl diwygiedig (Cyfansoddiad Diwygiedig y CYSAG/CYS ar gyfer 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' (CGM), Mai 2023) yn Atodiad A yn cael ei gytuno.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Cytuno ar y Cylch Gorchwyl (Cyfansoddiad Diwygiedig y CYSAG/CYS ar gyfer CGM) fel y mae'n darparu ar gyfer y CYSAG a'r CYS, hyd nes y bydd y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn cael ei chwblhau.

**C158 ADRODDIAD CRYNO AR DDIOGELU CORFFORAETHOL (GCI) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd rhoi crynodeb o'r gweithgarwch a wnaed mewn perthynas â threfniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu ar draws y Cyngor a rhoi sicrwydd ynghylch gweithgarwch diogelu sy'n digwydd ar draws y Cyngor.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod pawb yn gyfrifol am ddiogelu, a'i bod yn bwysig gallu cydnabod a bod yn wyliadwrus ar ran pobl sy'n agored i niwed a phobl sydd mewn perygl oherwydd cymhlethdod rhai o'r materion roedden nhw'n eu hwynebu.

Ychwanegodd y Cynghorydd Birch fod ysgolion yn cymryd eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu o ddifrif gan eu bod yn gweld plant bob dydd ac yn gallu sylwi ar anawsterau, newidiadau mewn ymddygiad ac ati, ac yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol lle bo angen ac yn briodol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y gwaith a wnaed i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion yn cael ei nodi.

(2) Y byddai'r Cabinet yn parhau i dderbyn adroddiadau bob chwe mis ar waith sy'n cael ei wneud i fonitro trefniadau Diogelu Corfforaethol a'i effeithiolrwydd.

(3) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgorau Craffu canlynol i'w ystyried.

a. Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol;
b. Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol;
c. Yr Amgylchedd ac Adfywio;
ch. Cartrefi a Chymunedau Diogel; a
d. Dysgu a Diwylliant.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu.

(2) Galluogi'r Cabinet i oruchwylio'r maes allweddol hwn o weithio corfforaethol yn effeithiol.

(3) Sicrhau bod yr Aelodau'n cael eu goruchwylio'n helaeth o ran y maes pwysig hwn.

**C159 ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL RHEOLI ANSAWDD AER LLEOL 2023 (YGCGR) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIAD) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Cynnydd Blynyddol Rheoli Ansawdd Aer Lleol 2023 ar waith monitro ansawdd aer a gynhaliwyd yn 2021 i alluogi cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2023 fan bellaf.

Roedd yr adroddiad yn rhan o ddyletswydd statudol Cyngor Bro Morgannwg dan Ddeddf yr Amgylchedd i adolygu ac asesu ansawdd aer yn rheolaidd yn ardaloedd y Cyngor. Roedd gwaith monitro ansawdd aer ym Mro Morgannwg wedi cyflawni'r amcanion ansawdd aer perthnasol yn gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac roedd y Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni lefelau llygredd aer mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Cafwyd y data ansawdd aer ar gyfer Bro Morgannwg o fonitorau awtomatig a thiwbiau tryledu ar gyfer mesur, yn benodol, nitrogen deuocsid.

Dangosodd y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad fod data wedi'i gasglu yn 2000 ac yn 2022 o 50 o leoliadau sy'n cael eu monitro ledled Bro Morgannwg gyda'r defnydd o diwbiau tryledu goddefol a gwnaeth y canlyniadau ganfod nad

oedd unrhyw safleoedd yn torri trothwyon allyriadau nitrogen deuocsid cenedlaethol. Byddai'r Swyddogion yn parhau i adolygu unrhyw leoliadau monitro y gallai fod eu hangen ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Roedd hwn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y canlyniadau monitro a gasglwyd yn 2022 yn cael eu nodi.

(2) BOD Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2023, fel yr atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru iddi ei gymeradwyo.

(3) BOD dyfarniad o £18,409 o gronfa Cymorth Ansawdd Aer Lleol Llywodraeth Cymru yn 23/24 i hwyluso'r gwaith o uwchraddio ac ymestyn Monitorau Ansawdd Aer amser real ym Mro Morgannwg yn cael ei nodi.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1 a 2) Roedd yr adroddiad yn bodloni gofynion y broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol statudol dan Ran IV Deddf yr Amgylchedd 1995, ac roedd yr adroddiad yn cynnwys canlyniadau data ansawdd aer a gasglwyd yn 2022.

(3) Cydnabod y dyfarniad o'r arian gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o uwchraddio ac ymestyn monitorau ansawdd aer amser real ym Mro Morgannwg.

**C160 MATER YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EI FOD YN FRYS –**

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd yn y cofnodion, yn cael ei ystyried.

**C161 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036 CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG A STRATEGAETH DDRAFFT A FFEFRIR (CYF) –**
**(Brys oherwydd yr angen i ystyried y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar 14 Tachwedd 2023 i gyfeirio'r mater at y Cyngor Llawn ar 20 Tachwedd 2023.)**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2023.

Diolchodd y Cynghorydd Sivagnanam i staff y Gwasanaethau Democrataidd am gynhyrchu'r cyfeiriad mor brydlon yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu. Roedd y Pwyllgor wedi trafod yr adroddiad gyda'i sylwadau'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r

ymgynghoriad ac argymhellodd un newid i'r amserlen gyflawni i’r Cabinet ei ystyried.

Wedi ystyried y cyfeiriad,

PENDERFYNWYD – BOD y sylwadau o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2023 yn cael eu nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.